Pythefnos MASNACH DEG 2010

22 Chwefror – 7 Mawrth 2010

FAIRTRADE FORTNIGHT 2010 THE BIG SWAP

©Simon Rawles/Fairtrade Foundation

Mae'n Bythefnos Masnach Deg eto! Mae Pythefnos Masnach Deg yn gyfle i ddweud wrth bawb rydych yn adnabod am y gwahaniaeth mae Masnach Deg yn ei wneud i fywydau ffermwyr sy'n tyfu'r cynnyrch yr ydym yn mwynhau yn y Deyrnas Unedig. Rydym wedi cyflawni cryn dipyn dros y blynyddoedd, wrth i bobl gyffredin wireddu uchelgais aruthrol; sef i drawsnewid bywydau miliynau o deuluoedd amaethyddol mewn gwledydd sy'n datblygu. Mae Masnach Deg yn fudiad sy'n angerddol o blaid newid, taclo tlodi ac anghyfiawnder trwy fasnach.

©Simon Rawles/Fairtrade Foundation

Daw Masnach Deg a chynhyrchwyr, busnes, cymunedau ac unigolion ynghyd i ymgyrchu am system fasnach decach. Mae dwy filiwn o bobl - un rhan o dair o ddynol ryw - yn byw ar lai na $2 y dydd. Rheolau masnachu annheg sy'n eu cadw mewn bywyd o dlodi, ond maent hefyd yn wynebu heriau prinder bwyd a newid hinsawdd. Ar gyfer Pythefnos Masnach Deg eleni rydym yn gwahodd pobl i ymuno â ni yn y Cyfnewid Mawr. Am bythefnos lawn byddwn yn gofyn i bobl gyfnewid eu nwyddau arferol am bethau Masnach Deg. Eu bananas arferol am fananas Masnach Deg, eu sanau cotwm arferol am sanau cotwm Masnach Deg, ac yn bennaf oll, eu paned arferol am baned Masnach Deg. A byddwn angen i dipyn o bobl gyfnewid. Un filiwn ag un a dweud y gwir. Mae pob un cyfnewid yn profi fod pobl y Deyrnas Unedig eisiau i gynhyrchwyr yn y gwledydd datblygol gael bargen well. Felly, p'un a ydych yn cyfnewid eich siwgr neu'n trefnu digwyddiad cymunedol, bydd pob un weithred yn helpu tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar ffermwyr, gweithwyr a chymunedau ledled y byd.

Ysgolion Masnach Deg

Os ydych yn gweithio tuag at y Wobr Ysgolion Masnach Deg, bydd angen i'ch ysgol gynnal digwyddiad yn ystod y Bythefnos Masnach Deg yn rhan o Nod 5. Gall y canllaw hwn eich helpu gydag ambell syniad ar sut i gymryd rhan yn y Cyfnewid Mawr.

Ychwanegwch y ddalen hon i'r Canllaw Gweithredu Ysgolion Masnach Deg, y gellir ei defnyddio ynghyd â'r Canllaw Gweithredu Pythefnos Masnach Deg 2010 gan fod dipyn o syniadau ynddi am sut i ddod â Masnach Deg i'ch ysgol yn ystod y Bythefnos Masnach Deg a thu hwnt.

Os ydych eisoes wedi llwyddo i gyflawni'r wobr, bydd digwyddiadau yn ystod y bythefnos Masnach Deg yn cyfrif tuag at ei hadnewyddu, ac fe allwch helpu cyfathrebu'r neges i'ch cymuned.

Y Cyfnewid Mawr 2010

Mae Pythefnos Masnach Deg eleni yn canolbwyntio ar de ac rydym angen i chi annog cyfnewid te mewn cymaint o ffyrdd creadigol â phosibl. Oherwydd waeth sut fyddwch yn hoffi'ch paned, mae'n gymaint mwy blasus os fyddwch yn gwybod fod y bobl sydd wedi tyfu a chasglu'r dail wedi cael bargen decach am eu gwaith.

Dawns De Masnach Deg 'Strictly'

Yn anhygoel, mae llawer o bobl yn dal heb glywed faint o wahaniaeth mae Masnach Deg yn wneud i fywydau ffermwyr mewn gwledydd datblygol. Defnyddiwch eich Dawns De i ddweud wrth eich teulu a chymuned am Fasnach Deg. O salsa i ddawns neuadd, dawnsio stryd i falet, tango i ddisco, rydym eisiau i'r genedl estyn am eu sgidiau dawnsio gan floeddio: Prydain, cyfnewidiwch eich paned! Bydd pob un sy'n dawnsio yn profi fod y Deyrnas Unedig am i gynhyrchwyr gael bargen well. Ar Ddydd Sadwrn 27 Chwefror rydym yn gobeithio y bydd cymaint â phosibl o Ddawnsfeydd Te Masnach Deg ledled y Deyrnas Unedig, er efallai y byddai'n well gennych gynnal eich un chi ar ddiwrnod ysgol.

Yn eich ysgol mae'n siwr y bydd yna rai sydd eisoes yn gallu dawnsio a rhai sydd am ddysgu! Gofynnwch i'ch dawnswyr profiadol arddangos eu sgiliau, neu gofynnwch i'ch ysgol ddawns leol ddod i roi gwersi.

- Gall y ddawns gynnwys unrhyw fath o ddawnsio, o unrhyw ddiwylliant. Fe allech gynnwys dawnsiau o wledydd sy'n cynhyrchu – efallai y bydd rhywun yn eich cymuned leol all ddysgu dawns o ran arall o'r byd.
- Gall dawnsio godi syched, ac fel yr hen ddawnsfeydd te traddodiadol, mae'n rhaid cadw'r tebot yn llawn. Felly beth am gael bwrdd blasu te ble gall pobl ddewis eu ffefryn Masnach Deg. Paratowch ddetholiad Masnach Deg i bobl flasu. Cadwch eich lefelau egni yn uchel gyda bisgedi, fflapjacs a bananas Masnach Deg. Peidiwch ag anghofio sudd, llyfnlaethau a choffi Masnach Deg hefyd! Efallai y bydd siopau lleol yn gallu helpu gyda samplau.
- Defnyddiwch yr adnoddau te yn www.fairtrade.org.uk megis ffilmiau a gwybodaeth am gynhyrchwyr i gyfathrebu'r neges Masnach Deg wrth i bobl fwynhau eu paned.
- Trowch eich ysgol yn Neuadd Ddawns De, dawnsio neuadd neu ddisgo Masnach Deg wych gyda baneri, balwns, posteri, sticeri, crysau t a mygiau aer gyda'r Nod MASNACH DEG.
- Ac i gadw pobl ar eu traed, beth am gael cerddorion a bandiau lleol i gymryd rhan hefyd.

Syniadau ar gyfer eich Te Parti Masnach Deg

Mae pawb yn mwynhau te parti ac mae nifer o bethau y gallwch wneud i sicrhau mai'ch un chi yw digwyddiad y flwyddyn

Syniadau ar gyfer eich Te Parti Masnach Deg

Fe allech wneud eich Te Parti yn Bicnic Tedis neu De Parti Mad Hatter. Ewch i **www.fairtrade.org.uk/schools** i gael cwis i'w ddefnyddio yn eich parti.

- Gwahoddwch rieni, neiniau a theidiau a'r gymuned i ddod a mwynhau.
- Paratowch ddanteithion blasus yn defnyddio cynhwysion Masnach Deg. Chwiliwch am syniadau yn **www.fairtrade.org.uk/products/recipes.aspx** neu beth am rywbeth eich hun! Gallwch gyfnewid ryseitiau Masnach Deg gyda'ch gilydd ar y diwrnod.
- Paratowch bosteri neu luniau i'w harddangos i ddweud wrth bawb sut mae Masnach Deg yn gweithio a pham ei fod y bwysig.
- Archebwch adnoddau o **http://online.fairtrade.org.uk** megis baneri a mygiau i gyfathrebu'r neges a gwneud i'ch te parti edrych yn hardd.
- Gallwch gael ffedogau a thyweli wedi eu gwneud o gotwm Masnach Deg ar gyfer eich merched a dynion te.
- Peidiwch ag anghofio tynnu lluniau a'u defnyddio ar gyfer eich cais Ysgol Masnach Deg.

FAIRTRADE FORTNIGHT 2010 THE BIG SWAP

fairtrade.org.uk

Profwch rai o'ch hoff ryseitiau Masnach Deg

Cyfnewid eich gwisg

Mae miliynau mewn gwledydd datblygol yn dibynnu ar gotwm i ennill incwm. Yn wir, daw dau draean o'r cotwm a gynhyrchir yn y byd o wledydd datblygol. Mae'r pris a dderbyniont am eu cotwm yn gostwng ac yn aml nid yw'n ddigon i gefnogi eu teuluoedd. Eleni bydd y Sefydliad Masnach Deg yn gofyn i ysgolion ledled y Deyrnas Unedig gyfnewid eu gwisg ysgol am wisg cotwm Masnach Deg. Yn y Deyrnas Unedig rydym yn gwario £1 biliwn y flwyddyn ar wisgoedd ysgol felly gall cyfnewid i gotwm Masnach Deg wneud cryn wahaniaeth i ffermwyr. I ddysgu mwy am ble i gael gwisgoedd, ewch i **www.fairtrade.org.uk/schools/cotton**

- Cyfeiriwch at daflen weithredu cotwm ysgolion
- Beth am ddefnyddio Pythefnos Masnach Deg fel cyfle i ddangos y gwisgoedd ysgol Masnach Deg sydd ar gael i bawb. Trefnwch stondin yn eich ysgol yn ystod y Bythefnos Masnach Deg i arddangos gwisgoedd cotwm a gwybodaeth i bobl ddeall sut mae Masnach Deg yn newid bywydau miliynau o ffermwyr. Gallwch archebu adnoddau o **http://online.fairtrade.org.uk/**
- Trefnwch gyfarfod gyda'ch pennaeth, llywodraethwyr a darparwyr gwisg ysgol yn ystod y bythefnos i esbonio pam fod cyfnewid i wisgoedd cotwm Masnach Deg yn bwysig i chi.
- Peidiwch ag anghofio nad dim ond gwisgoedd ysgol sydd ar gael mewn cotwm Masnach Deg, ond detholiad enfawr o ddillad gwahanol. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.fairtrade.org.uk/cottonproducts**. Gallech hyd yn oed drefnu sioe ffasiwn yn ystod y Bythefnos Masnach Deg i ddangos i bawb pa fath o ddillad sydd ar gael.

Cyfnewidfa

I annog pobl i gyfnewid i Fasnach Deg, beth am drefnu Cyfnewidfa i gael aelodau o'ch teulu a'r gymuned i ddod i'ch ysgol a chyfnewid i Fasnach Deg. Gallech gyfnewid:

- Ryseitiau Masnach Deg
- Eich hoff deisennau, bisgedi, jamiau a phwdinau gyda chynhwysion Masnach Deg
- Awgrymau ar sut i ddod o hyd i'ch hoff gynnyrch Masnach Deg.
- Syniadau ar sut i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn eich ymgyrch Masnach Deg

Cyfnewid eich Ysgol

Os yw'ch ysgol eisoes yn Ysgol Masnach Deg, beth am gyfnewid eich Pwyllgor Llywio Masnach Deg gydag ysgol arall am ddiwrnod. Gallech rannu'ch llwyddiannau â nhw ac fe allent weld sut mae Masnach Deg wedi ei sefydlu yn eich ysgol.

Masnach Deg Cymru
Am ragor o wybodaeth ar beth sy'n digwydd yng Nghymru yn ystod yn ystod Pythefnos Masnach Deg ac i gael Canllaw Gweithredu yn eich dewis o Gymraeg neu Saesneg, ewch i **www.fairtradewales.com**

Angen cymorth?

Os ydych angen cymorth gyda dod yn Ysgol Masnach Deg neu ddysgu am Fasnach Deg, gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sefydliadau yn eich ardal all helpu yn **www.fairtrade.org.uk/schools/support_resources**

©Simon Rawles/Fairtrade Foundation

Fairtrade Schools: All You Need to Know

(only available in English)

Mae gan y Sefydliad Masnach Deg adnodd arbennig ar gyfer ysgolion sydd eisiau bod yn Ysgol Masnach Deg. Ar y DVD hwn fe geir animeiddiad sy'n rhoi cyflwyniad i Fasnach Deg i blant, wedi ei gyflwyno gan Bernadette a Carlos. Mae'r DVD hefyd yn darparu CD-ROM o gynlluniau ac adnoddau gwersi.

Ysbrydoliaeth
Edrychwch ar beth fu ysgolion eraill yn wneud y llynedd **www.fairtrade.org.uk/schools/news/bestschooleventaward.aspx**

Gwobr Masnach Deg Margaret Demidecka

ar gyfer y Bythefnos Masnach Deg orau mewn ysgol

Ysgol Uwchradd Worthing

Gwobr Margaret Demidecka ar gyfer y Bythefnos Masnach Deg orau mewn ysgol.

Wedi llwyddiant Gwobr Margaret Demidecka yn 2009, yn 2010 bydd gwobr ariannol ar gyfer y digwyddiad gorau mewn ysgol gynradd, a'r digwyddiad gorau mewn ysgol uwchradd. Mae'r wobr yn £350 ar gyfer y cais gorau y gall yr ysgol fuddugol ei ddefnyddio i gryfhau gwaith Masnach Deg yn yr ysgol. Roedd y cystadlu'n frwd y llynedd a bydd y beirniaid yn chwilio am syniadau arloesol a diddorol sy'n edrych yn wirioneddol ar beth yw Masnach Deg. I weld manylion ymgeiswyr buddugol y llynedd, neu i lawrlwytho ffurflen gais, ewch i **www.fairtrade.org.uk/schools/news/bestschooleventaward.aspx**

Dechreuwyd Gwobr Masnach Deg Margaret Demidecka yn 2006 gan y Grŵp Cyfiawnder a Heddwch, sy'n gysylltiedig i Churches Together yn Tring, Swydd Hertford, gan ei ddyrannu ar gyfer gweithgaredd gorau Pythefnos Masnach Deg mewn ysgol yn yr ardal. Yn 2009, fe unodd y wobr â gwobrau'r Sefydliad Masnach Deg ei hun ar gyfer y gweithgaredd gorau ledled y Deyrnas Unedig.

Ysgol St Ninian, Gourock

Mixed Sources
Product group from well-managed forests, controlled sources and recycled wood or fiber
www.fsc.org Cert no. SGS-COC-006737
© 1996 Forest Stewardship Council
FSC

www.fairtrade.org.uk

Fairtrade Foundation, 3rd Floor, Ibex House,
42-47 Minories, London EC3N 1DY
Tel: 020 7405 5942 Fax: 020 7405 5943
Registered Charity No. 1043886.
A company limited by guarantee, registered in England and Wales No. 2733136
Photography: Simon Rawles/ Fairtrade Foundation

Product code: SCHG3°

FAIRTRADE